COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl255

Amseru:

Teitl: Arian tuag at *Physical Empowerment CIC*

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:
Yn dilyn cyfarfod llwyddiannus gyda *Physical Empowerment CIC,* sy'n darparu cyrsiau hunanamddiffyn ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig ac yn codi eu hymwybyddiaeth, cyflwynodd y cwmni budd cymunedol gais am gyllid i'r CHTh ar gyfer datblygu prosiect peilot yn ardal Dyfed-Powys. Byddai'r peilot yn cynnwys cwrs hunanamddiffyn 10 wythnos o hyd ar gyfer goroeswyr, a byddai cyrsiau'n cynnwys pynciau megis perchnogi eich gofod personol, bod yn ymwybodol, dweud na, ymddygiad pendant a hunansgwrsio cadarnhaol.

Mae'r CHTh yn awyddus i gefnogi system gymorth ac ymagwedd mor arloesol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, ac mae'n fodlon ariannu'r prosiect peilot hyd at y swm o £12,000 o'r Gyllideb Ailhyfforddi Gyrwyr.

Argymhelliad:
Cynigir bod y CHTh yn cefnogi gweithredu'r prosiect peilot sy'n cael ei gynnal gan *Physical Empowerment CIC,* hyd at y swm o £12,000, o'r gyllideb Ailhyfforddi Gyrwyr.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 2/2/2022**